# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Penygroes**

**Neuadd Lesiant Penygroes**
**Waterloo Road**
**Penygroes**
**Llanelli**
**SA14 7PN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Iau, 5 Gorffennaf 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Penygroes yn darparu gofal sesiynol ar gyfer uchafswm o 17 o blant o ddwy oed ymlaen. Cynhelir y gwasanaeth yn neuadd lesiant y pentref rhwng dydd Llun a dydd Gwener o 9 tan 11.30 y bore gyda sesiynau prynhawn rhwng dydd Llun a dydd Iau o 12 tan 2.30 y prynhawn. Mae'r Cylch Meithrin wedi ei ariannu i ddarparu gofal ar gyfer plant tair blwydd oed ac o ganlyniad caiff ei arolygu gan Estyn. Y personau cofrestredig yw Margot Roberts ac Anne O'Brien-Stafford a'r person â gofal yw Siân James. Cymraeg yw iaith y gofal.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Gwelsom fod y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Penygroes yn hapus a bod y profiadau dysgu a roddir iddynt yn ysgogi brwdfrydedd. Maent yn derbyn gofal gan aelodau staff cyson a meithringar sy'n ymroddedig i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu cynllunio'n ofalus ond maent hefyd yn mwynhau cyfnodau o chwarae rhydd. Mae'r plant yn hapus ac mae'n amlwg eu bod yn mwynhau eu hamser yma. Maent yn gwneud cynnydd da ac yn magu annibyniaeth. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas at ddefnydd plant, a bod dewis da o deganau ac adnoddau. Mae rhieni yn hapus gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Datblygwyd partneriaethau da â rhieni, y gymuned ehangach ac asiantaethau allanol.

**2. Gwelliannau**

Mae'r arweinwyr wedi cofrestru'r gwasanaeth gyda chynlluniau cenedlaethol a chynlluniau lleol, sef

- Cynllun Gwên ar gyfer brwsio dannedd;
- 'Bagiau chi a fi' i annog cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol; ac
- Amser stori 'Actif' a defnyddio beiciau bach i hybu ffitrwydd.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Rydym yn argymell bod y darparwr yn

- ffurfioli trefniadau goruchwylio i aelodau staff unigol;
- rhoi mwy o gyfleoedd i'r plant fagu annibyniaeth yn ystod amser byrbryd; a
- chadw cofnodion gwasanaethu system wresogi'r adeilad fel eu bod yn gyfleus i'w harchwilio.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Gwrandewir ar y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Penygroes ac maent yn cael gwneud eu dewisiadau eu hunain. Maent yn teimlo'n gartrefol, yn hapus, ac yn ddiogel ac maent yn mwynhau y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn rhyngweithio'n hyderus â'r oedolion sy'n gofalu amdanynt ac yn dechrau cyd-chwarae.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Yn y gwasanaeth hwn, mae gan blant ddewis. Gwrandewir arnynt ac maent yn cyfathrebu â'i gilydd ac â'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Mae plant yn dewis pa weithgareddau maent am eu gwneud yn ystod y sesiynau chwarae rhydd. Ar ôl cyrraedd y cylch, mae'r plant yn hyderus wrth ddewis o'r gwahanol weithgareddau sydd ar gael megis traciau trên a threnau, chwarae synhwyraidd ar y bwrdd twff, tywod, blociau Duplo a doliau. Yn ystod y cyfnod cylch, gofynnwyd i'r plant ddewis caneuon i'w canu. Wrth ddefnyddio blociau i beintio gloÿnnod byw, roedd y plant yn ddigon hapus i ofyn am siâp a dewis yr un yr hoffent ei beintio a lliw y paent yr oeddent ei eisiau. Roedd y plant yn hyderus wrth fynd at aelodau staff a gofyn iddynt ymuno yn y chwarae gan roi doliau iddynt neu drwy chwarae rôl gyda bwyd. Dangosodd un plentyn ei hesgidiau newydd i'r staff gan ddweud yn llawn cynnwrf, "Mae gen i esgidiau newydd!". Roedd plant ifanc yn chwarae'n fodlon ochr yn ochr â'i gilydd ac ambell dro roeddent yn rhyngweithio â'i gilydd. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn "siswrn plîs" wrth blentyn arall cyn derbyn y siswrn.

Mae gan y plant yn y gwasanaeth lais clir.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu yn y Cylch Meithrin ac mae ganddynt berthynas dda â'r staff.

Cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r plant y gwasanaeth yn hapus. Roedd un plentyn, oedd ond newydd ddechrau yn y cylch, yn ddagreuol ar ôl i'w ofalwr adael. Eisteddodd y plentyn ar lin aelod o'r staff ond o fewn ychydig funudau roedd yn barod i ymuno yn y gweithgareddau ac roedd wedi setlo ac yn hapus am weddill y sesiwn. Ar y cyfan, yn ystod ein hymweliad, roedd y plant yn teimlo'n gartrefol, wedi ymlacio ac yn hapus iawn. Roeddent yn rhyngweithio yn hyderus â'r staff, er enghraifft, yn dangos arian iddynt oedd wedi glynu i fagnet. Cerddodd un plentyn yn ôl tuag at aelod o'r staff gan ddangos ei bod eisiau eistedd ar ei glin. Roedd y plentyn yn hyderus y byddai ymateb yr aelod staff yn gadarnhaol ac y byddai'n cael eistedd ar ei glin.

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus iawn yn y Cylch Meithrin.

### 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau dod i ddeall eu teimladau ac yn dangos sensitifrwydd tuag at emosiynau pobl eraill. Maent yn dysgu cymryd eu tro, rhannu a chydweithio.

Roedd plant ifanc yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn fodlon. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn chwarae'n hapus gyda'r bwrdd twff gan lenwi eu cerbydau cludo bach gyda llond llaw o basta, reis a chorbys. Ambell dro, byddai un plentyn yn helpu plentyn arall i lenwi ei lori gyda llawiad o basta ac yna byddai'r ffrind gan wenu yn helpu y plentyn arall i lenwi ei lori. Yn ystod amser stori, roedd y plant yn cael trafod sut oedd y cymeriad Bili broga yn teimlo. Defnyddiwyd pypedau i ailberfformio'r stori a dynwared sut oedd Bili broga yn teimlo. Wrth chwarae gyda'r clai meddal, roedd y plant yn ddigon hapus i rannu'r offer a'u pasio yn ôl ac ymlaen. Yn y gornel chwarae rôl, tapiodd un plentyn un arall ar ei ysgwydd, a chogio llenwi ac estyn cwpan o de i'w ffrind ei yfed.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd.

### 1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn brysur, yn dangos diddordeb ac yn frwdfrydig wrth chwarae. Maent yn cynnal diddordeb yn y gweithgareddau ac yn gyfarwydd â chyfnodau chwarae strwythuredig a chwarae rhydd.

Mae'r plant yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd ac yn hyderus wrth estyn am y teganau a'r adnoddau roeddent eu heisiau. Roedd un bachgen yn chwerthin yn uchel pob tro roedd yn ychwanegu bloc at y tŵr yr oedd yn ei adeiladu, ac yn galw ar y staff i ddod i weld ei greadigaeth. Dyfalbarhaodd am beth amser gan ail-adeiladu'r tŵr sawl gwaith a llwyddo i'w adeiladu ychydig yn uwch pob tro. Roedd y plant yn awyddus iawn i ateb cwestiynau yn ystod amser stori ac yn ymuno â llinell olaf y stori. Ar ôl y byrbryd, roedd gan y plant gyfle i ddarllen llyfrau a chael cyfnod tawel.

Mae'r plant yn frwdfrydig wrth fwynhau eu chwarae a'u dysgu.

### 1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae gan y plant gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau unigol a'u hannibyniaeth.

Roedd y plant yn golchi ac yn sychu eu dwylo eu hunain cyn y byrbryd ac yn rhoi'r tyweli papur yn y bin. Helpodd un plentyn i roi cwpanau ar y bwrdd ar gyfer y byrbryd. Gallai rhai plant ddod o hyd i'w henwau eu hunain ar y bwrdd. Roedd y plant yn brysur yn tacluso'r teganau ar adegau amrywiol yn ystod y sesiwn. Dangosodd un plentyn ei annibyniaeth drwy nôl brwsh a phadell ar ei liwt ei hun i sgubo reis, pasta a chorbys

oedd wedi cwympo ar y llawr. Roedd plant yn gallu adrodd dyddiau'r wythnos a gwneud sylw am dywydd y diwrnod.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac mae ganddynt rai cyfleoedd i ymarfer eu hannibyniaeth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn ymroddgar wrth ddarparu gweithgareddau amrywiol ac ysgogol i blant. Maent yn diwallu anghenion y plant yn gyson oherwydd eu bod yn eu hadnabod yn dda ac yn frwdfrydig ac ysgogol yn eu trefniadau dyddiol.

### Ein canfyddiadau

**2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?**

Mae'r staff yn ymwybodol o bolisi diogelu plant y Cylch ac yn gwybod beth yw'r dull gweithredu y mae'n rhaid ei ddilyn os oes ganddynt bryderon am blentyn. Mae'r gwasanaeth yn hybu ffordd iach o fyw.

Roedd staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i ymdrin â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios iddynt. Diweddarwyd hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig y staff ac roedd gweithdrefn eglur ar waith i ddelio â digwyddiadau. Roedd staff a rhieni yn arwyddo cofrestr digwyddiadau a damweiniau. Roedd staff yn sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn eistedd ar gyfer byrbryd o dost a ffrwythau. Roeddent yn ymwybodol o alergeddau ac roedd trefniadau ar waith i fodloni anghenion dietegol penodol y plant. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo bwyta'n iach ac wedi ymuno â chynllun cadw'n actif sy'n cynnwys amser stori 'Actif' a beiciau bach. Gwelsom luniau o'r plant yn gwneud y gweithgareddau hyn yn y neuadd fawr.

Mae'r staff wedi ymrwymo i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

**2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?**

Mae gan y gwasanaeth bolisi o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac mae'r staff yn gyson wrth ymdrin â digwyddiadau. Maent yn gosod ffiniau clir i'r plant ac yn rheoli y rhyngweithio rhyngddynt mewn ffordd sy'n briodol i'w datblygiad.

Roedd y staff yn canmol plant am ymddygiad da ac yn ymateb i blant a oedd eisiau cysur neu gwtsh. Roedd y staff yn ymdrin â'r plant mewn dull gofalgar a chynnes ac yn cyd-eistedd â hwy. Yn ystod amser stori, roedd un plentyn yn sefyll i fyny yn aml mewn cynnwrf, ac eglurodd aelod o'r staff yn garedig wrth y plentyn na fyddai'r plant tu cefn yn gallu gweld y llyfr ac y byddent yn drist oherwydd hynny. Roedd aelodau'r staff yn ddylanwad da gan siarad yn gwrtais â'i gilydd ac â'r plant.

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'n dda.

**2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae'r plant yn derbyn gofal gan staff gofalgar a meithringar sy'n ymwybodol o hoffterau a galluoedd yr unigolyn.

Roedd y staff yn gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a gwelsom gynllunio manwl ar gyfer pob ystod oedran. Roedd y gwasanaeth yn cofnodi'r hyn yr oedd plant yn ei hoffi megis eu hoff fyrbryd a'u hoff deganau cyn iddynt gychwyn yn y cylch. Cofnodwyd sylwadau cyffredinol am sgiliau unigol y plant yn aml gan y staff. Ar gyfer tasgau arbennig, roedd y staff yn nodi beth oedd y camau nesaf i bob plentyn. Roedd y sylwadau cyffredinol a'r sylwadau ar y tasgau arbennig yn cael eu defnyddio wrth gynllunio gweithgareddau ac yn sicrhau bod y plant yn anelu tuag at dargedau unigol. Roedd y staff yn gweithredu ar gynllun iaith CHATT a derbyniwyd arian i gefnogi darpariaeth unigol i ddisgyblion oedd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn caniatáu i'r plant chwarae mewn man diogel gydag ystod eang o adnoddau a chyfleoedd. Mae'r ystafell wedi ei gosod fel bod modd bodloni pob maes addysgol y Cyfnod Sylfaen. Defnyddir neuadd fawr ar gyfer gweithgareddau corfforol.

### Ein canfyddiadau

**3.1 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Maent yn sicrhau cyn belled ag y bo modd bod peryglon posibl yn cael eu canfod a'u hatal.

Roedd y drws i'r neuadd yn cael ei gloi ac roedd llyfr ymwelwyr yn cael ei ddefnyddio. Cynhaliwyd asesiadau risg rheolaidd ar gyfer y gwasanaeth, yn ogystal ag ymweliadau â'r gymuned. Roedd aelodau'r staff yn cadw'r adeiladau yn lân ac yn clirio ar ddiwedd pob sesiwn. Cynhaliwyd prawf dyfeisiau cludadwy ar gyfer yr offer trydan ac roedd yr offer glanhau wedi eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd yn y gegin. Roedd gan y gwasanaeth radd 5 mewn hylendid bwyd. Cafwyd ymarferion tân yn aml ac roeddent yn cael eu cofnodi. Roedd tystysgrif gyfredol ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei harddangos ar yr hysbysfwrdd. Nid oedd tystysgrif wasanaethu gyfredol o'r system wresogi ar gael ond cafodd ei hanfon atom cyn diwedd yr arolygiad.

Mae'r staff yn effeithlon wrth sicrhau diogelwch yr amgylchedd.

**3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?**

Mae'r amgylchedd tu mewn yn groesawgar ac yn addas i blant gyda deunydd lliwgar a llawer o waith y plant yn cael ei arddangos.

Roedd i'r brif ystafell ystod eang o fannau chwarae addas i blant: chwarae rôl, creadigol, byd bach, adeiladwaith, gwneud marciau a phwll tywod. Roedd deunydd lliwgar yn cael ei arddangos ar y wal yn cynnwys printiau llaw gloÿnnod byw a cherdyn pen-blwydd yn dangos misoedd pen-blwyddi'r plant. Defnyddiwyd neuadd fawr ar gyfer gweithgareddau ar feiciau bach, dathliadau arbennig, chwarae synhwyraidd 'cyffwrdd yr enfys' ac amser stori 'actif' gan nad oedd gan y gwasanaeth ddarpariaeth fan awyr agored dynodedig.

Mae'r amgylchedd yn addas iawn ar gyfer y plant.

### 3.3 Pa mor dda mae’r arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae’r plant yn elwa o adnoddau, cyfarpar a theganau o safon da.

Roedd yr adnoddau a’r cyfarpar o safon da ac yn addas at eu dibenion. Roedd y staff wedi darparu dodrefn sy’n addas i faint plant fel bod y plant yn gallu eistedd wrth fyrddau yn annibynnol ac yn gallu cyrraedd y cyfarpar a’r teganau. Roedd yr adnoddau a’r cyfarpar yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd dewis eang o adnoddau i’r plant ac roedd llyfrau a theganau amlddiwylliannol ar gael ac yn cael eu defnyddio wrth astudio thema arbennig. Roedd yr arweinwyr wedi ymuno â’r cynllun ‘bagiau chi a fi’ oedd yn darparu adnoddau i wella sgiliau penodol megis sgiliau symud cyhyrau i allu gwneud hynny gartref gyda rhieni/gofalwyr.

Mae’r arweinwyr a’r staff yn darparu ac yn cynnal adnoddau a chyfarpar o safon da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae’r arweinwyr yng Nghylch Meithrin Penygroes yn sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei staffio’n gywir ac yn cael ei gynnal yn dda. Maent yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu a bod staff yn derbyn hyfforddiant ac arfarniadau rheolaidd. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â’r gymuned.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw’r arweinyddiaeth?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â’r rheoliadau a’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae yma ethos sy’n gwerthfawrogi staff a phlant, gan sicrhau mai canolbwynt y ddarpariaeth yw eu hanghenion.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gweithredu polisïau’r gwasanaeth yn llawn. Dywedwyd wrthym fod polisïau yn cael eu hadolygu’n gyson. Mae aelodau’r staff yn cydweithio’n dda ac yn effeithiol, ac maent yn cael cymorth gan yr arweinwyr. Mae’r datganiad o ddiben yn cydymffurfio â’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn cael ei ddiweddaru’n rheolaidd. Roedd y staff yn cydweithio’n dda ac roedd ganddynt berthynas gadarnhaol â’r rhieni, a oedd yn ganmoliaethus iawn am y gwasanaeth a ddarperir. Roedd tystysgrif gyfredol ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei harddangos ar yr hysbysfwrdd.

Mae’r arweinyddiaeth yn effeithiol yn y gwasanaeth hwn.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw’r gwaith o hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr yn adolygu’r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn ystyried barn y plant, rhieni a’r staff.

Mae’r arweinwyr yn adolygu gwasanaeth y Cylch yn flynyddol ac yn llunio adroddiad**.** Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn edrych yn gyson am feysydd i ddatblygu a gwella’r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Roedd hyn amlwg yn adroddiad eleni a oedd yn nodi y dylai pwyllgor y neuadd gyflwyno cais am grant er mwyn creu man chwarae i’r plant y tu allan i’r adeilad. Roedd y Cylch hefyd yn cymryd rhan mewn cynllun cenedlaethol i hybu brwsio dannedd ynghyd â’r cynllun ‘bagiau chi a fi’ yn ogystal â chynllun ‘Actif’ y sir.

Mae’r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y Cylch yn cael ei staffio’n gywir a bod digon o weithgareddau ar gael ar gyfer nifer y plant sy’n mynychu’r gwasanaeth.

Roedd ffeiliau’r staff yn cynnwys y ddogfennaeth berthnasol ac roedd yr holl wiriadau angenrheidiol wedi eu cynnal. Roedd gan y staff y cymwysterau priodol. Cwblhawyd arfarniadau blynyddol gan nodi pa hyfforddiant roedd ei angen a pha dargedau personol ar gyfer datblygiad staff. Cynhaliwyd goruchwyliaeth ar gyfer y staff unigol yn anffurfiol. Roedd yr holl hyfforddiant craidd staff yn gyfredol ac roedd staff wedi mynychu nifer o gyrsiau hyfforddi eraill megis rheoli ymddygiad heriol, amddiffyn rhag croes-heintio ac addysg iechyd deintyddol.

Mae’r staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli’n dda.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr a’r staff berthynas dda â rhieni a gofalwyr. Mae ganddynt gysylltiadau da â’r ysgol fwydo ac asiantaethau allanol eraill.

Roedd rhieni a gofalwyr yn uchel eu clod am y gwasanaeth ac am y staff. Dywedwyd wrthym eu bod yn hapus gyda’r wybodaeth roeddent wedi ei chael am y gwasanaeth a’u bod yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu’n dda am ddatblygiad eu plentyn. Roedd gweithgareddau codi arian megis boreau coffi a digwyddiadau reidio beic noddedig yn cael cryn gefnogaeth gan y rhieni a chan y gymuned leol. Mae’r arweinwyr yn gweithio’n agos gyda’r ysgol fwydo gan drosglwyddo gwybodaeth am y disgybl cyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol honno a thrwy fynychu cyngherddau Nadolig. Roedd y staff yn mynychu cyfarfodydd aml-asiantaeth oedd yn cynnwys staff yr ysgol, rhieni, ymwelydd iechyd, seicolegydd addysg a therapydd lleferydd ac iaith cyn i’r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol drosglwyddo i’r ysgol. Mae therapydd lleferydd ac iaith y sir yn ymweld â’r Cylch unwaith yr wythnos i weithio gyda phlant unigol. Mae’r ymwelydd iechyd lleol yn ymweld â’r Cylch yn aml i gynnig cyngor pan fydd ei angen. Mae’r plant yn ymuno â’r chwaraeon sy’n cael eu trefnu gan Menter Cwm Gwendraeth.

Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau ardderchog â’r rhieni, y gymuned ac asiantaethau allanol.

## 5. Gwelliannau y mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr adroddiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell bod y darparwr yn

- ffurfioli trefniadau goruchwylio i aelodau staff unigol;
- rhoi mwy o gyfleoedd i'r plant fagu annibyniaeth yn ystod amser byrbryd; a
- chadw cofnodion gwasanaethu'r system wresogi yn yr adeilad fel eu bod yn gyfleus i'w harchwilio.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn oedd hwn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

- Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth am 4 awr ar 15 Mai 2018;
- edrychom ar sampl o ddogfennau a pholisïau gan gynnwys ffeiliau staff, ffeiliau plant, cofnodion hyfforddiant, cofnodion o ddamweiniau a chofnodion cynllunio;
- fe wnaethom arsylwi ar blant gan ddefnyddio'r SOFI (Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu) i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarparwyd gan aelodau'r staff; a
- siaradom â'r person â gofal, y plant, rhieni, staff a'r person cofrestredig.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person cofrestredig** | **Anne O'Brien-Stafford**<br>**Margot Roberts** |
| **Person â gofal** | **Sian James** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **17** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 5 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun tan ddydd Gwener 9am – 11.30am**<br>**Dydd Llun tan ddydd Iau 12pm-2.30pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **8 Medi 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **15 Mai 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A ddarperir addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed yn y gwasanaeth hwn?** | **Ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Darperir gwasanaeth sy'n rhagweld, nodi a diwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol Cymraeg ar gyfer y bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth, neu sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |